PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

DYDD MERCHER, 21AIN EBRILL, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:
S.M. Allen, L. Bowen, K.V. Broom, D. Jones, J.P. Jenkins, B.W. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas a D.T. Williams

Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch	-	Rhiant-Lywodraethwr
Y Parch. D. Richards	-	Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd G. Davies, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
G. Morgans – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
S. Davies - Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees - Pennaeth Cwricwlwm a Lles
A. Thomas - Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
C. Griffiths - Rheolwr Datblygu'r Cymraeg
A. James - Cynghorydd Cymorth Addysgol
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
J. Corner – Swyddog Technegol

Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 12.05 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs V. Kenny, cynrychiolydd Yr Eglwys Gatholig Rufeinig.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Aelod	Rhif y Cofnod(ion)	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Dot Jones	4. Cwricwlwm i Gymru	Mae ei gŵr yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. CWRICWLWM CYMRU

[NODER: Roedd y Cynghorydd D. Jones wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o'r cymorth ar gael i ysgolion a lleoliadau arbenigol Sir Gaerfyrddin gan y Cyngor Sir a'r consortiwm rhanbarthol, ERW, wrth iddynt roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith erbyn mis Medi 2022.

Mae'r Awdurdod yn datblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru sy'n ategu gwaith y Tîm Cynhwysiant. Ei nod yw sicrhau bod addysgeg dda yn bodloni anghenion disgyblion unigol ar bob lefel a bod ysgolion yn gwneud cynnydd effeithiol yn unol â nodau'r Genhadaeth Genedlaethol. Hefyd, mae Ymgynghorwyr Cymorth Addysg a swyddogion o'r Tîm Seicolegwyr Addysgol a'r Tîm Ymddygiad a Chynhwysiant yn cynnal trafodaethau cadarnhaol parhaus ag ysgolion unigol i drafod cynnydd o ran pontio i'r Cwricwlwm i Gymru, yn ogystal â phontio ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion ynghylch y math o gymorth a oedd yn cael ei roi ac yn cynnig dulliau strategol ychwanegol/amgen i wella'r ddarpariaeth bresennol gan gynnwys y canlynol:-

- ❖ y cyd-destun presennol ac ymgysylltiad ysgolion â'r cwricwlwm newydd hyd yn hyn;
- ❖ dull strategol yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant;
- ❖ y cymorth sydd ar gael i ysgolion a lleoliadau arbenigol;
- ❖ ymgysylltiad ysgolion a lleoliadau arbenigol;
- ❖ cwestiynau ar gyfer llywodraethwyr wrth iddynt gefnogi eu hysgolion ar y daith hon;
- ❖ y Rhwydweithiau Ymchwil a Dysgu Proffesiynol;
- ❖ disgwyliadau;
- ❖ rôl ERW.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Ar ôl gofyn beth oedd y cynlluniau tymor hir a thymor byr o ran ERW, esboniodd y Cyfarwyddwr fod pedwar Awdurdod Lleol yn dal i weithio mewn partneriaeth y tymor hwn a'u bod yn aelodau llawn o ERW o hyd - Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phowys. Er bod Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion wedi gadael y bartneriaeth, daethpwyd i gytundeb i barhau i ddarparu rhai gwasanaethau iddynt, rhaglenni arweinyddiaeth yn bennaf. Y bwriad bellach yw aros i ERW ddod i ben ar 31 Awst eleni a dechrau partneriaeth newydd ar 1 Medi, 2021. Bydd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth yn parhau i gael eu darparu gan y bartneriaeth newydd, ond o fis Medi ymlaen, gallai'r ddarpariaeth honno fod yn fwy lleol o bosibl, yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau a gynhelir ar hyn o bryd. Bydd rhagor o wybodaeth am y strwythur newydd yn cael ei rhoi i'r partneriaid newydd cyn bo hir a gobeithio y bydd swyddogion mewn sefyllfa i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a

Llesiant fod y Tîm Cwricwlwm o fewn ERW wedi bod yn gweithio'n galed i gefnogi ysgolion drwy'r cyfnod pontio hwn;

- Cyfeiriwyd at y rôl bwysig y mae llywodraethwyr yn ei chwarae yn y broses hon a gofynnwyd i'r swyddogion sut y bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu yn gyson ac yn deg i'r holl ysgolion ledled y sir. Sut y bydd llywodraethwyr yn gwybod i ba raddau y mae'r staff yn eu hysgolion wedi cymryd rhan mewn cyrsiau hyfforddiant rhithwir ac i ba raddau y mae'r staff yn deall yr heriau sydd i ddod ac ati. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant ei fod yn bwysig bod llywodraethwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf. Bydd sesiynau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr yn cael eu cynnal ym mis Medi i'w helpu i wybod pa fath o gwestiynau y dylent fod yn eu gofyn i'w penaethiaid. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr y dylai fod gan yr holl ysgolion Gynllun Datblygu'r Ysgol a fydd yn cynnwys y cwricwlwm fel un o'i flaenoriaethau a ffocws ar ddatblygu. Cydnabu fod rhywfaint o waith i'w wneud o hyd o ran y broses werthuso ar gyfer y cwricwlwm newydd yr oedd yn sicr y byddai ar waith erbyn mis Medi 2022;
- Gofynnwyd am esiampl o'r ffordd newydd o addysgu o gymharu â'r hen ffordd, esboniodd yr Ymgynghorydd Cymorth Addysgol ei fod yn ymwneud â meithrin perthnasoedd â phlant a'u hannog i gymryd rhan yn y dosbarth yn bennaf. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod yn ymwneud â symud o gwricwlwm penodol lle rydych yn ticio blychau o ran y cynnwys i gwricwlwm sy'n addas ar gyfer anghenion y dysgwyr, gan gynnwys hanes lleol, diwylliant lleol ac ati;
- Mynegwyd pryder ynghylch y risg y gallai rhai ysgolion barhau i ddefnyddio'r cwricwlwm presennol yn lle croesawu'r cwricwlwm newydd. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol pa mor bwysig yw sicrhau bod ein hysgolion yn ddewr ac yn edrych tua'r dyfodol. Mae sgiliau cyfathrebu yn hollbwysig, ac felly, mae'n rhaid i ni fagu hyder plant i siarad yn gyhoeddus. Mae mwy o bwyslais ar ddysgu a gweithio digidol a fydd yn datblygu ym maes addysg ac yn ffactor pwysig iawn ohono yn y dyfodol ac nid yn ystod y pandemig yn unig. Bydd dysgu o bell yn rhan o hynny ac mae angen i ni sicrhau bod gan ein plant y sgiliau angenrheidiol;
- O ran pryderon na fydd rhai ysgolion yn croesawu'r cwricwlwm newydd o bosibl, gofynnwyd i swyddogion sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a sut y byddwn yn sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu ledled y sir. Rhoddodd yr Ymgynghorydd Cymorth Addysgol wybod i'r Pwyllgor fod gwybodaeth yn cael ei chasglu o bob ysgol yn barhaus. Roedd yn anodd cynnal unrhyw asesiadau yn ystod y cyfyngiadau symud, ond, caiff unrhyw esiamplau o arferion gorau eu rhannu â'r holl ysgolion. Caiff cymorth ychwanegol ei roi i unrhyw ysgolion lle bo angen. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod yn hanfodol sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud yn siŵr eu bod ar y trywydd iawn a'u bod yn barod ar gyfer mis Medi 2022, a fydd yn flaenoriaeth i'r tîm;
- Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r pwysau sydd ar ysgolion ar hyn o bryd o ganlyniad i'r problemau a achosir gan y pandemig, yn ogystal â'r pwysau ychwanegol sylweddol o orfod ymdrin ag un o'r newidiadau mwyaf i faes addysg o fewn yr 20 mlynedd diwethaf ar yr un pryd. Mae angen gwneud mwy i gefnogi ysgolion, yn enwedig yr ysgolion llai nad oes ganddynt yr adnoddau. Esboniodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant y gallai'r cwricwlwm newydd gael ei ddefnyddio fel rhagflaenydd a ffordd allan o'r pandemig ac y gallai ddarparu glasbrint a fframwaith i ddatblygu cymorth

ar gyfer gwellhad dysgwyr. Roedd yn bwysig bod yn ymarferol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni erbyn mis Medi 2021, ac roedd swyddogion yn cydlynu â'r Arolygiaeth o ran hynny yng ngoleuni'r tarfu ar eu blwyddyn pontio. Ychwanegodd ei fod yn bwysig canolbwyntio ar gael y weledigaeth iawn yn gyntaf cyn symud ymlaen;

- Mynegwyd pryder bod ysgolion dan straen am sut beth fydd arolygiadau Estyn. Rhoddodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant wybod i'r Pwyllgor y dylai'r rhain fod wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn pontio, ond, roedd yr Arolygaeth wedi gohirio arolygiadau ar gyfer y mwyafrif o ysgolion. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod trafodaethau ag Estyn a Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal dros yr wythnosau diwethaf ynghylch ailddechrau arolygiadau ysgol a'r hyn y dylai ysgolion ei ddisgwyl. Bydd Estyn yn edrych ar sut mae ysgolion wedi addasu i COVID a sut maent wedi ymdrin ag ef. Fodd bynnag, bydd hefyd yn gefnogol o unrhyw ysgolion sy'n treialu dulliau newydd o ddylunio a gweithredu cwricwlwm yr ysgol a bydd hynny'n rhan o'r broses arolygu. Nod yr arolygiad yw gweld sut mae ysgolion yn newid ac yn datblygu wrth baratoi ar gyfer mis Medi;
- Cyfeiriwyd at gynlluniau datblygu ysgolion a'r ffaith eu bod yn amrywio o ran ansawdd ledled Cymru. Gofynnwyd i'r swyddogion a oedd cyfle yn fan hyn i gadw golwg ar y cynlluniau hyn, sicrhau cysondeb ledled y sir a cheisio safonau uchel. Mae Ymgynghorwyr Her yn gwneud gwaith da ond a allant sicrhau bod yr holl Gyrff Llywodraethu yn cael adborth o ran yr hyn sydd wedi gweithio a'r hyn sydd heb weithio ac ati. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar gynllun newydd mewn perthynas â gwella ysgolion sy'n amlinellu cyfrifoldebau pawb yn glir, gan gynnwys llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd fod proses fonitro ar waith yn lleol o ran Cynlluniau Gwella Ysgolion.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL

Cafodd y Pwyllgor gynllun busnes adrannol y Gwasanaethau Addysg a Phlant ar gyfer 2021/2022 a oedd yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol.

Oherwydd pandemig COVID-19, roedd y cynllun a gyflwynwyd yn fersiwn fyrrach nad oedd yn cynnwys yr adran adolygu gan ei bod wedi'i chynnwys yn yr asesiadau o effaith COVID-19 ar wasanaethau a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Nodwyd bod effaith y pandemig a Brexit wedi creu llawer o ansicrwydd o ran llywio cynlluniau yn y dyfodol ac, yn sgil hynny, gallai'r cynllun busnes newid.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y tabl ar dudalen 51 o'r pecyn agenda a gofynnwyd i'r swyddogion pam nad oedd yr amgylchedd wedi cael sylw oherwydd siawns bod yr adran wedi'i heffeithio e.e. Llwybrau Diogel i'r Ysgol. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr amgylchedd yn ffactor pwysig ym maes addysg. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y blychau perthnasol dim ond yn cael eu ticio os oes camau gweithredu penodol ar gyfer yr adran yn y

Cynllun Llesiant. Mae'r adran yn cyfrannu tuag at lawer o agweddau ar waith amgylcheddol yn ein hysgolion. Ychwanegodd y byddai'n cydlynu â'r swyddogion perthnasol ynghylch rhoi gwybod am yr amcan penodol hwnnw, gan gynnwys y mesurau a'r camau gweithredu allweddol;

- Cyfeiriwyd at y datganiad yn y cynllun y bydd y ddarpariaeth ôl-16 oed yn cael ei hadolygu er mwyn creu darpariaeth gynaliadwy, a mynegwyd pryder bod hyn yn awgrymu nad oedd y ddarpariaeth yn bodoli ar hyn o bryd. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod adolygiad o'r ddarpariaeth ôl-16 oed wedi'i gynnal pan ddaeth i'r amlwg nad oedd niferoedd y chweched mewn rhai ysgolion yn gynaliadwy, ac felly, nid oeddent yn gallu cynnig yr amrywiaeth o bynciau gofynnol. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod y ddarpariaeth ôl-16 oed yn faes allweddol gan ei fod yn pontio o addysg statudol i addysg bellach i'r gweithle, ac mae llawer o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar y pwnc hwn yn y dyfodol agos;
- Cyfeiriwyd at allu cymunedau i ddefnyddio cyfleusterau ysgolion a'r heriau cysylltiedig a gofynnwyd i'r swyddogion pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran y cytundeb model. Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg, o ran gwneud y defnydd gorau o gyfleusterau i gefnogi gweithgarwch ehangach yn y gymuned, fod swyddogion yn ceisio sicrhau bod prydlesau priodol ar waith ar hyn o bryd i ddiogelu'r ysgolion a'r Awdurdod Lleol;
- Cyfeiriwyd at y ffaith fod pryderon wedi'u mynegi yn flaenorol ynghylch termau mewn perthynas â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a gofynnwyd i swyddogion a fyddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fynd i'r afael â'r pryderon hynny. Esboniodd y Pennaeth Mynediad i Addysg y byddai angen cymeradwyo unrhyw brosiect a nodir ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac y byddent yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Craffu;
- O ran Cynllun Adrannol y Gwasanaethau Plant, cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd y canrannau yn yr adroddiad yn rhoi unrhyw wybodaeth mewn gwirionedd. Esboniodd y Cyfarwyddwr nad ydynt yn gamau gweithredu, ond yn hytrach, targedau statudol ydynt a gyflwynir i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd. Ychwanegodd fod y targedau yn cael eu defnyddio fel mesurau, felly dim ond problem fformatio ydoedd y byddai'n sicrhau ei bod yn cael sylw;
- Mynegwyd pryder ynghylch yr elfennau risg amrywiol y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad a'r ffaith y dylai'r Pwyllgor roi sylw manwl i'r rhain dros y misoedd nesaf. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod adroddiad risg adrannol ar gael a bod trefniadau diogelu ar waith i gydnabod a mynd i'r afael â'r risgiau hynny. Ychwanegodd y gallai rannu'r ddogfen hon â'r Pwyllgor pe baent yn dymuno ei gweld;
- O ran yr adolygiad sydd i'w gynnal o holl ystodau oedran a dyddiadau derbyn yr ysgolion, gofynnwyd i'r swyddogion a ydynt yn fodlon â'r gallu i gynnal yr adolygiad hwn. Esboniodd y Pennaeth Mynediad i Addysg ei fod yn llunio adroddiad cynnig i'w ystyried gan y Tîm Rheoli Adrannol ar hyn o bryd er mwyn ystyried nifer o opsiynau. Bydd ymgynghori ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r Polisi Derbyniadau yn cael ei gynnal y flwyddyn nesaf.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Cynllun Busnes Adrannol y Gwasanaethau Addysg a Phlant 2021/22.

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiad craffu canlynol:-

- Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.

7. BLAENRAGLEN WAITH

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith am y cyfnod rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2021, a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglenni gwaith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y Cyngor.

Penderfynodd y Pwyllgor mewn sesiwn datblygu'r flaenraglen waith bennu'r flaenraglen waith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2021 i ddechrau, a phenderfynwyd y bydd y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2022 yn cael ei drafod yn ddiweddarach. Nid oedd hyn yn atal yr eitemau a nodwyd i'w hystyried yn y cyfarfodydd hyn yn ystod y flwyddyn rhag cael eu cynnwys a diweddarwyd y flaenraglen yn unol â hynny.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod y Pwyllgor wedi gofyn am gynnal gweithdai ynghylch Hunanarfarnu a'r Rhaglen Moderneiddio Addysg a bod y rhain yn cael eu cynnal cyn mis Medi 2021 os yw'n bosibl.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Rhagfyr 2021.

8. GORCHWYL A GORFFEN

Cytunodd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r broses ymgynghori bresennol ar gyfer newid trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth ieithyddol a chau ysgolion.

Mae trafodaethau'r Pwyllgor ynghylch nodau ac amcanion allweddol yr adolygiad Gorchwyl a Gorffen hwn wedi'u cynnwys a'u datblygu mewn dogfen gynllunio a chwmpasu ddrafft.

Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys chwe aelod etholedig ac un aelod cyfetholedig, a bydd yn wleidyddol gytbwys gymaint ag sy'n bosibl. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn trefnu cynnal y cyfarfod cyntaf cyn gynted â phosibl ac yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith ei aelodau yn y cyfarfod hwn. Bydd swyddogion yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant a'r Uned Gwasanaethau Democrataidd yn Adran y Prif Weithredwr yn cefnogi gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod angen tynnu'r cyfeiriad at "eitem 6 ar yr agenda" sydd tuag at ddiwedd y ddogfen gwmpasu, yn y blwch sy'n cynnwys pa wybodaeth/ddogfennau sydd eu hangen i lywio gwaith yr astudiaeth.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

8.1 derbyn Dogfen Gwmpasu y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;

8.2 cadarnhau nodau a chwmpas gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen;

8.3 bod yr aelodaeth o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen fel a ganlyn:-

- **Y Cynghorydd Kim Broom**
- **Y Cynghorydd Shahana Najmi**
- **Y Cynghorydd Darren Price**
- **Y Cynghorydd Emlyn Schiavone**
- **Y Cynghorydd Bill Thomas**
- **Y Cynghorydd Edward Thomas**
- **Mr Anthony Enoch**

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17EG MAWRTH, 2021

Cyfeiriwyd at dudalennau 3 a 4 o'r cofnodion o ran yr ymgynghoriad cenedlaethol ynghylch categoreiddio iaith. Nodwyd bod y Pwyllgor yn cytuno y dylai'r ymateb i'r ymgynghoriad nodi y dylai fod mwy o hyblygrwydd ar gyfer ysgolion uwchradd. Cadarnhaodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod hyn yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2021 yn gofnod cywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**